

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala, 6/3/14

Presennol: Y Maer, Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: John C Williams, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

1. Estynnodd y Maer groeso i bawb a mynegodd cydymdeimlad yr aelodau gyda John C Williams, Heddu a'r teulu yn eu colled ddiweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Datganodd y Maer buddiant ym mater cynllunio NP5/53/168B.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6ed Chwefror a'r cyfarfod arbennig 22 Chwefror.
6. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Chwefror nad oedd eisoes ar yr Agenda.
7. **MATER MEWNOL: Cytunwyd i wahodd Carol Rowlands i'r sedd wag ar y Cyngor. Gweithredu: Clerc**
8. **Delwedd y dref:**
 - i. Llongyfarchwyd Siop Carpedi Bala ar ennill y gystadleuaeth Addurno Ffenest Siop i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Siop DE am ennill ar y gystadleuaeth addurno coeden. Roedd y Siop Carpedi yn dymuno cyfrannu'r siec i Ymchwil y Galon ac Ymchwil yr Arennau. Cytunwyd i anfon i ddiolch i ddisgyblion Ysgol y Berwyn am feirniadu. Roedd y fenter wedi bod yn llwyddiannus a chytunwyd i anfon i longyfarch y trefnwyr. Cytunwyd i osod hysbyseb yn Y Cyfnod yn llongyfarch pawb a oedd wedi ymwneud â'r dathlu. **Gweithredu: Clerc**
 - ii. Cytunwyd i ofyn i Dilwyn Morgan ac Elwyn Edwards i gydweithio i weld a ellir ymestyn addurno'r coed i gynnwys coed y Rhiwlas adeg Eisteddfod yr Urdd.
 - iii. Cytunwyd i gael cystadleuaeth addurno ffenestri tebyg i gystadleuaeth Gŵyl Ddewi ar y testun Croeso i'r Eisteddfod. **Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Sir**
 - iv. Cytunwyd i archebu goleuadau ar y coed o fewn y terfynau gwario. **Gweithredu: Clerc a'r Cynghorydd Sir**
9. **Materion Cynghorydd Gwynedd:** Roedd y Cynghorydd Sir yn barod i dderbyn unrhyw sylwadau.

10. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

- i. Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran berthnasol o Gyngor Gwynedd at y sbwriel yn ardal wrth gefn y siop prynu a bwyta allan Indiaid ar y Stryd Fawr. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Cytunwyd i dynnu sylw'r adran berthnasol at y sbwriel wrth ochr ffyrdd ar y ffordd mewn i'r dref, ac at y trwch o faw y mae'r glaw mawr wedi ei adael. **Gweithredu: Clerc**
- iii. Cafwyd sylwadau ar y sbwriel ar lan y llyn yn dilyn llifogydd y gaeaf a chytunwyd i ddiolch i'r Wardeiniaid am y gwaith clirio. **Gweithredu: Clerc**
- iv. Cytunwyd i dynnu sylw'r Co-op at y llanast sydd wrth y bin ail gylchu'r Samariaid yn eu safle parcio. **Gweithredu: Clerc**
- v. Nodwyd fod cangen wedi torri (ond heb ddisgyn) ar y goeden ar y domen. Cytunwyd er diogelwch i ofyn am archwiliad o gyflwr y goeden ac i hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn. **Gweithredu: Clerc**

11. Materion Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Cofnodwyd cymeradwyo yng nghyfarfod arbennig 20/2/14 cais NP5/53/T422 sef newid defnydd Bronygraig o gartref preswyl i dŷ annedd.
- ii. Cymeradwywyd cais NP5/53/168B sef gosod ffenestri to ym Meirion House, 28 Heol Tegid.
- iii. Nodwyd gwahoddiad i Noson ar gyfer Cyngorau Cymuned 21/5/14 yng Nghoed y Brenin
- iv. Cymeradwywyd cais NP5/53/522 sef adeiladu estyniadau ochr a chefn a chodi garej ar wahân 19 Craig y Fron

12. Materion Cyllid:

- i. Cadarnhawyd gwneud cyfraniad i'r Gymdeithas Genweirio.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: llun gopïau (£6); aelodaeth Un Llais Cymru (£273).
- iv. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Chwefror: £331.35 (PAYE wedi ei dynnu)
- v. Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc a Dilys Evans wneud trosglwyddiad o £2,000 o'r Cyfrif Cadw i'r Cyfrif Cyfredol
- vi. Derbyniwyd cais am wybodaeth gan Unmetered Supplies Scottish Power
- vii. Cytunwyd i dalu anfoneb Vodafone £10
- viii. Derbyniwyd tâl am goed Nadolig Neuadd Buddug: £123

13. Gohebiaeth:

a. Llywodraeth Cymru:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am ymgynghoriad ar Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 - Gweithredu.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol – Chwefror 2014

b. Cyngor Gwynedd

- i. Ystyriwyd ymgynghoriad ar flaenoriaethau Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn nesaf
- ii. Derbyniwyd anogaeth y Cyng. Paul Thomas i'r gymuned ddefnyddio'r Ganolfan Hamdden. Awgrymwyd fod taflenni yn cael eu rhannu ym maes carafanau'r Eisteddfod a bod cyfeiriad at y Ganolfan Hamdden yn cael ei wneud ar wefan yr Eisteddfod. Cytunwyd i anfon i ganmol cwrteisi'r staff yn y ganolfan Hamdden. **Gweithredu: Clerc**
- iii. Rhannwyd neges parthed trwsio to toiledau'r Grin.
- iv. Derbyniwyd cynnig o ddyddiadau i gyfarfod yng nglyn â'r Domen.

c. Un Llais Cymru

- i. Nodwyd y gwahoddiad i anfon cynigion i'r Gynhadledd Flynyddol
- ii. Nodwyd y gwahoddiad i anfon stori neu newyddion ar gyfer "Y Llais"
- iii. Derbyniwyd agenda'r Pwyllgor Ardal 12/3/14

d. Heddlu

Derbyniwyd gwybodaeth am lansiad ymgyrch yn erbyn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, yn cynnwys ffilm gyda chefnogaeth Undeb Rygbi Cymru.

e. Eraill

- i. Derbyniwyd cais am loches bws ar gyfer y safle wrth Awen Meirion. Cytunwyd i gefnogi'r cais a'i anfon at sylw Cyngor Gwynedd. **Gweithredu: Clerc**
- ii. Rhannwyd gwybodaeth Cymdeithas Tai Clwyd am gyfle i gofrestru ar gyfer rhestr aros am gartref 10/3/14 yng Nghanolfan Tegid 2.30 tan 6.00pm.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Grid Cenedlaethol am waith ar y llinell rhwng Trawsfynydd a Threuddyn.
- iv. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor i Theatr Bara Caws.
- v. Ystyriwyd gwahoddiad i Gyfarfod Blyneddol Tŷ'r Eos 10/4/14.
- vi. Derbyniwyd Tystysgrif am y rhodd o £500 i Ambiwlans Awyr Cymru.
- vii. Derbyniwyd cais am arian oddi wrth Ganolfan y Plase a chytunwyd am y tro hwn i wneud cyfraniad arbennig o £50 fel gwerthfawrogiad o waith y ganolfan; y Clerc i egluro fod y cais wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'w ystyried yn ystod cyfarfod trafod ceisiadau. **Gweithredu: Clerc**
- viii. Derbyniwyd diolch gan Eisteddfod Llangollen a ffurflen ar gyfer gwneud cais am 2 docyn di-dâl.
- ix. Derbyniwyd diolch gan Gymdeithas Chwaraeon Penllyn.
- x. Derbyn diolch gan Apêl Ilwybrau Mynwent Llanycil.
- xi. Derbyniwyd neges gan y cyn-gynghorydd Shan Ranson ynghyd â llun o'i mab bach. Cytunwyd i anfon i'w llongyfarch, **Gweithredu: Clerc**

14. Asedau'r Cyngor – derbyniwyd adroddiad ar eu cyflwr gan Sharon Evans a chytunodd Dilys Evans i wneud yr archwiliad nesaf.

15. Partneriaeth Penllyn: Cytunwyd i arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd am y flwyddyn nesaf.